

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Hysbysu) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Hysbysu) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021.

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

20 Medi 2021

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol\) \(Cymru\) 2020](#) ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") a [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Hysbysu\) \(Cymru\) 2010](#) ("y Rheoliadau Hysbysu").

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Senedd

Dod i rym

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd nad yw'r Rheoliadau yn cydymffurfio â'r confensiwn 21 o ddiwrnodau. Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd y risg a berir mewn perthynas â'r coronafeirws ac yn enwedig straeniau sy'n amrywiolion o'r feirws hwnnw, oddi wrth deithwyr sy'n teithio i'r DU. Mae'r newidiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn parhau â'r ymagwedd gyffredin ar draws y pedair gwlad mewn perthynas â theithio rhyngwladol, ac yn sicrhau bod y cysondeb â Lloegr a'r gwledydd eraill yn parhau. Ystyrir nawr fod darpariaeth profion preifat yn briodol oherwydd mesurau perfformiad rheoleiddiol newydd Llywodraeth y DU, a ddaw i rym ar 21 Medi. Yn unol â'r cyhoeddiad a wnaed i roi'r newidiadau hyn ar waith yng Nghymru cyn gynted ag y bo modd, mae Llywodraeth Cymru yn eu halinio â'r dyddiad dod i rym hwnnw sef 21 Medi. Bydd y gyfraith yng Nghymru yn berthnasol i deithwyr waeth pa borthladd y byddant yn cael mynediad drwyddo.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B, 45C(1), (2) a (3)(a), 45F(2)(a) a (b), 45P(2) a 60A o Ddeddf 1984. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y [Rheoliadau Teithio Rhyngwladol](#) yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn. Darperir dolen at y [Rheoliadau Hysbysu](#) hefyd.

4. Diben y deddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol drwy wneud y newidiadau canlynol:

- dileu **Kenya, Oman, Twrci, Pacistan, Bangladesh, Maldives, Sri Lanka a'r Aifft** oddi ar y "rhestr goch"; a
- chaniatáu i brofion diwrnod 2 a diwrnod 8 am y coronafeirws gael eu cynnal gan ddarparwyr profion preifat, ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â gofynion penodedig, gan gynnwys bod wedi eu hachredu'n briodol, bod â systemau penodedig ar waith a gwneud datganiad i gadarnhau eu bod yn cydymffurfio.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio'r Rheoliadau Hysbysu drwy wneud y newidiadau canlynol:

- gosod gofynion ar labordai diagnostig, labordai dilyniannu genomaid a darparwyr profion i hysbysu Iechyd Cyhoeddus Cymru am ganlyniadau profion ar gyfer canfod COVID-19 neu firws y fflw y maent yn eu prosesu; a
- gosod gofyniad ar labordai diagnostig i roi gwybodaeth ychwanegol pan fônt yn prosesu profion yn unol â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y diwygiadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

5. Ymgynghori

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

6. Aseiad Effaith Rheoleiddiol

Ni chynhaliwyd unrhyw aseiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.